**Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023**
**Adran: Cyfansoddi Cerdd Dant:** 305: Cyfansoddi Gosodiad dan 25 oed: Cyfansoddi gosodiad i unrhyw unawd yn Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd

**<u>Beirniadaeth Llio Penri</u>**
Derbyniwyd gosodiadau gan ddau gystadleuydd. Mae beirniadaethau llawn wedi eu paratoi ar gyfer y cystadleuwyr hynny. Yn absenoldeb ffugenwau, cyfeirir at: *Cystadleuydd A* a *Chystadleuydd B*.

Roedd rhyddid i'r cystadleuwyr ddewis unrhyw Unawd Cerdd Dant yn Rhestr Testunau 2023. Dewisodd *Cystadleuydd A* Unawd 19-25; asiad godidog o eiriau Tudur Dylan Jones a chainc Gwennant Pyrs yn cynnig cyfleoedd ardderchog i adlewyrchu'r hiraeth wrth gofio'r cawr o Fynydd y Garreg. Mae cyfle hefyd i ddarlunio cryfder, asbri ac angerdd heintus cymeriad Ray Gravell. Cywydd sydd yma, a rhaid parchu acenion cerdd gaeth. Gwnaethpwyd hynny, gan gorfannu'n gywir. Unawd bl 10 a dan 19 oed oedd dewis *Cystadleuydd B*: cerdd graff Myrddin ap Dafydd *Dau Lygad ar Un Wlad* i'w gosod ar gainc iasol Gwennant Pyrs, *Aran Benllyn*, gyda'r dewis o gord mwyaf neu leiaf ar ddiwedd pob pen. Yn gerdd rydd, ceir amrywiaeth yn nifer sillafau'r llinellau, ac yn safle'r prif acenion. Disgwyliwyd bod y llinellau hyn yn llifo'n naturiol ddi-dramgwydd, ac fe gyflawnwyd hynny. Roedd y corfannu'n ystyrlon drwy'r gerdd, gan ganiatáu i brif acenion geiriau allweddol daro acenion priodol y gainc.

Derbyniwyd gosodiadau wedi eu nodiannu'n glir ar feddalwedd cyfrifiadur gan y ddau gystadleuydd. Dewisodd *Cystadleuydd B* ddarparu recordiad mp3 o berfformiad yn ogystal. Roedd hyn yn gymorth i werthfawrogi'r dehongliad, ac yn enghraifft o arfer dda ar gyfer cystadleuwyr y dyfodol. Mae'n dystiolaeth i'r cystadleuydd ac i'r beirniad fel ei gilydd, fod y gosodiad yn ganadwy, gyda dynameg a chynaniad y llais yn ategu'r dehongli sy'n cael ei arwain gan y gosodiad.

Roedd gosodiad *Cystadleuydd A* yn ofalus, gydag ôl meddwl yng nghyfeiriad y cyfalawon ac yn y modd mae geiriau allweddol yn cael eu hamlygu a'u lliwio. Ceir cydbwysedd o linell gerddorol yn symud fesul cam, yn gordiol neu'n ddigyswllt yn unol â'r dehongli, gyda'r cyfalawon, gan amlaf, yn llifo'n gyfforddus o fewn ystod traw o bedwerydd perffaith cyfansawdd (cyfwng 11eg). O'r llinell gerddorol agoriadol yn ymdroelli'n ddisgynnol ar *'mor dawel, dawel yw'r dydd',* mae'r gosodiad yn llawn cyffyrddiadau llwyddiannus. Defnyddir nodau appoggiaturi a nodau camu acennog yn effeithiol, ond gwylier rhag or-ddefnydd o rhain rhag i ambell linell gerddorol fod yn ddof gan golli'r cyfle i ddarlunio angerdd Ray a'i ffyrnigrwydd fel canolwr.

Mae diffuantrwydd a naturioldeb yn nodweddu'r gosodiad *Cystadleuydd B*. Ceir symlrwydd ymddangosiadol, ond achubir bron bob cyfle i liwio gair a chymal. Gan gwmpasu ystod traw o 10fed, mae'r gosodiad yn gyfforddus i'w ganu, gan fanteisio'n arbennig ar drawiau'r is-gwmpasran. Yn gynnil, mae cyfeiriad ac adeiladwaith y cyfalawon yn caniatáu inni, o'r cwpled cyntaf, ymdeimlo â'r cyferbyniad rhwng difaterwch a materoliaeth ar y naill law, â pharch a chariad at natur a chynefin ar y llall. Sicrhawyd amrywiaeth yn y cyferbynnu. Mae'r gosodiad yn frith o gyffyrddiadau sy'n argyhoeddi: mae cyfosod brasgamu cordiol yr agoriad, gyda chymal tynerach yr ateb, gan gydio yn yr anghytsain tyner sydd yng ngohirnod / eilfed atodol cord y gainc, yn darlunio'r cyferbyniad yn syth. Mae'r dewis o gord mwyaf ar *'frawd'* ac *'iaith'* yn taro'r deuddeg. Fodd bynnag, teimlais mai colli cyfle oedd gorffen ar gord mwyaf yng nghlo'r gosodiad. Imi, byddai gorffen ar gord lleiaf yn tanlinellu tristwch *'y ddaear na ddaw'n ôl'* yn fwy cywir gan danlinellu enbydrwydd y golled.

Dyfernir y Wobr gyntaf i *Gystadleuydd B* am osodiad sy'n arddangos hyder a dealltwriaeth gadarn o'r grefft. Llongyfarchiadau ar osodiad a oedd yn gyfrwng i ddwysbigo cydwybod
Dyfernir yr ail wobr, gyda chryn ganmoliaeth i *Gystadleuydd A* am osodiad yn arddangos dychymyg ac ymwybyddiaeth dda iawn o ofynion y grefft.